

Adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Sefydlu Panel Newydd i Hybu'r Iaith Gymraeg a Goruchwylio Darpariaeth Cymraeg o fewn Cyngor Sir Powys

Cefndir

Dros y blynyddoedd diwethaf, cafwyd cryn newidiadau yn y ffordd mae gofyn i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg trwy ei waith, ystyried effaith ei benderfyniadau ar y Gymraeg, a sut gellir eu haddasu i wella'r effaith honno, ac ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Sir.

Mae deddfwriaeth a strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r modd mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, datblygu defnydd o'r iaith a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn cynnwys;

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg – cynnig gwasanaethau, datblygu polisi, defnydd mewnol, cadw cofnodion a dyletswydd hyrwyddo
- Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, i sicrhau Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnig gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, er bod nifer o fforymau partneriaeth y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt sy'n trafod y Gymraeg, nid oes fforwm fewnol ar gyfer rhoi ystyriaeth i'r agweddau hyn o fewn Cyngor Sir Powys, i alluogi trafodaethau agored a manwl i sicrhau fod yr agweddau hyn yn cael sylw digonol o fewn strwythurau gwleidyddol, a strategaethau a phenderfyniadau'r Cyngor, a sicrhau fod ystyriaeth addas i effaith a dylanwad y Cyngor ar yr iaith Gymraeg o fewn y Sir.

Y cynnig felly yw sefydlu Panel newydd, sydd yn eistedd o dan strwythur y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac yn adrodd i'r Pwyllgor hwnnw, fydd yn gallu edrych ar wasanaethau a chynlluniau'r Cyngor yng nghyd-destun yr iaith Gymraeg.

Diben y Panel

Diben y Panel newydd hwn, o gael ei gymeradwyo gan y cyngor, fydd;

- Goruchwylio gwaith grwpiau eraill sy'n gweithredu ym maes yr iaith Gymraeg o fewn y Cyngor, e.e. Grŵp Hyrwyddo, Herio a Chefnogi'r Gymraeg, Fforwm Addysg Gymraeg, Grŵp Swyddogion* (eto i'w sefydlu) trwy dderbyn adroddiadau a gosod cyfeiriad ar gyfer gwaith y grwpiau hynny
- Ystyried prif strategaethau a chynlluniau'r Cyngor, i sicrhau fod ystyriaeth ddigonol i'r iaith Gymraeg a chynnig ffyrdd o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y cynlluniau a'r strategaethau hynny
- Ystyried samplau o Asesiadau Effaith ar y Gymraeg, sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg, i sicrhau fod sylw digonol yn cael ei roi i effeithiau penderfyniadau'r Cyngor ar y Gymraeg, i edrych sut y gellid cryfhau ein hystyriaethau i gael gwell effaith, a bod mesurau lliniaru addas yn cael eu cynnig yn sgil unrhyw effeithiau andwyol
- Argymhell sut y gallai strategaethau a chynlluniau'r Cyngor gyfrannu tuag at weledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Ystyried sut gellir cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn fewnol o fewn y Cyngor
- Derbyn adroddiadau am gydymffurfiaeth Cyngor Sir Powys â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- Bydd y Panel yn cwrdd yn chwarterol, gyda'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyd-fynd ag amserlen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Bydd cyfarfodydd y Panel yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu lle bo angen i ganiatáu i aelodau neu swyddogion di-Gymraeg gymryd rhan yn y drafodaeth.

Adrodd

Bydd y Panel newydd hwn, o'i gymeradwyo, yn adrodd i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys, gyda'r cyfarfodydd yn cael eu trefnu fel bod amserlen addas ar gyfer ystyried gwahanol agweddau ar waith y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg i gyd-fynd ag amserlen y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Aelodaeth

Cynigir fod y Panel newydd hwn, o'i gymeradwyo yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd / Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Powys.

Cynigir fod aelodaeth y Panel yn cynnwys;

- Aelod Portffolio'r Gymraeg
- Un cynrychiolydd o bob grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y Cyngor, i sicrhau mewnbyn a chefnogaeth trawsbleidiol i'r trafodaethau

Bydd swyddogion priodol hefyd yn mynychu a chefnogi gwaith y Panel.

Gweithredu

Er mwyn cefnogi gwaith a chyfeiriad y Panel yn ehangach o fewn y Cyngor, cynigir hefyd bod Grŵp Swyddogion Hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei sefydlu, gydag o leiaf un cynrychiolwr o bob maes gwasanaeth, fydd yn gyfrifol am gefnogi hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi gweithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu gwasanaethau.

Dylai aelodau'r grŵp hwn fod yn swyddogion dylanwadol o fewn eu gwasanaethau i sicrhau bod sylw digonol yn cael eu roi i'r materion a drafodir.

Bydd y grŵp hwn i'w gydlynu gan Swyddog Iaith Gymraeg Cyngor Sir Powys, a bydd yn adrodd i Panel Hybu a Goruchwylio'r Gymraeg.

Argymhelliad:	Rheswm:
Fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymhell i'r Cyngor Llawn fod Panel newydd yn cael ei sefydlu i Hybu'r Iaith Gymraeg a Goruchwylio Darpariaeth Cymraeg o fewn Cyngor Sir Powys	I sicrhau fod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r iaith Gymraeg o fewn cynlluniau a strategaethau Cyngor Sir Powys, i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a sicrhau fod adrannau'r Cyngor yn gweithredu yn ôl gofynion Safonau'r Gymraeg